EITEM 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **4 Medi 2020** |
| **ENW** | **Canllaw Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid** |
| **PWRPAS** | **Ystyried y Canllaw Cynllunio Atodol Drafft ymgynghorol a welir yn Atodiad 1 a chael penderfyniad i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo cyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus:**<br>**i. Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid** |
| **AWDUR** | **Heledd Jones, Arweinydd Tîm, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Awdurdodau Cynllunio wedi ymrwymo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno fersiwn drafft ymgynghorol o'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid ynghyd a gwybodaeth am y camau nesaf a'r amserlen.

**2. Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol**

2.1 Cynhyrchir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi manylion pellach ar bolisïau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn helpu i sicrhau y caiff polisïau eu deall yn well, eu gweithredu'n fwy effeithlon a'u gweithredu mewn ffordd gyson.

2.2 Wrth baratoi'r Canllawiau newydd yma mae'n bwysig cadw mewn cof bod rhaid i'r Canllawiau fod yn gyson efo'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a pholisi cynllunio cenedlaethol. Ni ddylai unrhyw Ganllaw gynnwys polisïau newydd na newid polisïau cyfredol.

2.3 Ar sail yr uchod, dim ond polisïau a chynigion y Cynllun sydd â statws arbennig (blaenoriaeth) wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu, a chyn belled eu bod wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a chael eu mabwysiadu gan yr Awdurdodau, bydd y Canllawiau yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio perthnasol.

**3. Y broses hyd yma**

3.1 Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r CCA (Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid) gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill, 2018. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adain Rheolaeth Datblygu ac Adain Twristiaeth y ddau Awdurdod. Cyhoeddwyd y Canllaw

Cynllunio Atodol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o chwe wythnos yn unol â'r cynllun ymgynghoriad cyhoeddus.

3.2 Ar ôl rhoddi ystyriaeth fanwl i'r holl sylwadau a dderbyniwyd a'r newidiadau a fyddai'n angenrheidiol i'r Canllaw er mwyn ymateb i'r sylwadau hynny penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Tachwedd 2018) fod angen gwneud diwygiadau pellach i'r Canllaw a olygai'r angen i ail-ymgynghori ar y newidiadau hynny. Roedd y diwygiadau yn benodol ymwneud a:-

i.) Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth
ii.) Sut i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer newid defnydd a cholli gwestai.

3.3 Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu.

3.4 Ers cynnal cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod yma ystyrir yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach mae dyfarniadau apeliadau diweddar sydd yn ymwneud a'r ystyriaethau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi amlygu'r angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.

3.5 Cyflwynwyd fersiwn drafft ymgynghorol o'r Canllaw i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr 2020. Penderfynwyd cymeradwyo'r fersiwn drafft ymgynghorol i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ddarostyngedig i wneud man ddiwygiadau i eiriad y Canllaw. Roedd y diwygiadau hynny fel a chanlyn:-

- Ym mhara 4.6.6 (pwynt 2) tynnu'r gair 'lleol' a chynnwys cyfeiriad at adeiladau rhestredig.
- Ym mhara 4.6.6 (pwynt 1) cynnwys cyfeiriad tuag at Nodyn Cyngor Technegol 6 wrth gyfeirio at 'mentrau gwledig'.
- Diwygio'r geiriad er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn â sut fydd y niferoedd o lety gwyliau yn cael ei gyfrifo (para 4.6.5, pwynt bwled 6). Hynny yw, a oes angen ystyried ffigwr y ddarpariaeth o lety gwyliau presennol wrth gyfrifo'r nifer o lety gwyliau sydd o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas berthnasol.

## 4. Camau nesaf a'r amserlen

4.1 Yn wreiddiol, roedd yr Canllaw wedi ei raglennu i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 20 Mawrth, 2020. Yn sgil argyfwng pandemig Covid-19 bu rhaid canslo'r cyfarfod hwnnw. Golygai hynny fod y broses o dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i ryddhau y ddogfen ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus wedi llithro.

4.2 Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau nesaf a'r amserlen ddangosol ar gyfer cyflawni'r camau. Mae'r amserlen derfynol yn dibynnu ar nifer y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a'r materion a godir yn y sylwadau hynny. Bydd adroddiad i gyfarfod y

Panel Cynllun Datblygu Lleol ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn rhoi diweddariad, gan gynnwys rhoi amserlen derfynol.

| **Gweithred** | **Pryd?** |
|---|---|
| Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos. | Medi – Hydref, 2020 |
| Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd – ystyried:<br>i. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.<br>ii. Newidiadau a gynigir i eiriad y Canllaw. | Tachwedd, 2020 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – ystyried:<br>i. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.<br>ii. Newidiadau a gynigir i eiriad y Canllaw.<br>iii. Mabwysiadu'r Canllaw. | Rhagfyr, 2020 |
| Defnyddio'r Canllaw mabwysiedig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol | Rhagfyr 2020 ymlaen. |

4.3 Yn arferol, wrth gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar Ganllawiau Cynllunio Atodol ac yn unol â'r '[Nodyn Trefniadau ar gyfer Paratoi a Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol]', mae copïau caled o'r Canllaw ar gael i'w archwilio yn Swyddfeydd y Cyngor ynghyd a'r llyfrgelloedd cyhoeddus lleol. Oherwydd y sefyllfa bresennol, ni fydd yn bosib gwneud hynny. Nodir y bydd gohebiaeth yn cael ei anfon at unigolion/asiantau cynllunio sydd wedi dangos diddordeb blaenorol yn y Canllaw er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod y Canllaw yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Ymhellach fe fydd yr ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu'r rheolaidd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y ddau awdurdod.

## 5. Argymhelliad

5.1 Bod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo'r diwygiadau a gynigir i'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft (wedi ei dangos mewn ysgrifen fras ac wedi ei danlinellu yn rhan 4.6 a phara 6.2.1) ac yn cymeradwyo cyhoeddi'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus sydd yn benodol berthnasol i'r diwygiadau hynny.